Partneriaethau Tirwedd
Telerau grant safonol

cronfa dreftadaeth y loteri
heritage lottery fund

Diffiniadau:

- **'ni', 'ein'** – Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (sy'n gweinyddu Cronfa Dreftadaeth y Loteri).

- **'chi', 'eich'** – y sefydliad(au) sy'n cael y Grant fel y nodir yn y Llythyr Hysbysiad Grant.

- **Cais** – unrhyw ddogfennau neu wybodaeth a anfonwch atom i gefnogi eich cais am grant, neu a gyflwynwch inni o'ch Gwaith Datblygu.

- **Dibenion Cymeradwy** – y dibenion rydych wedi ymgeisio am y Grant atynt a sut rydych chi neu eraill ('Trydydd Parti' neu 'Drydydd Partïon') yn bwriadu cyflawni'r dibenion hynny fel y nodir yn eich Cais. Gan ystyried:

    a) unrhyw newidiadau i'r rhestr o Raglenni Partneriaeth Tirwedd neu ddibenion eraill y cytunwyd yn ysgrifenedig arnynt gennym ni a gennych chi hyd at ddyddiad ein penderfyniad i ddyfarnu'r Grant i chi, ac unrhyw newidiadau y dywedwn wrthych amdanynt yn y Llythyr Hysbysiad Grant; ac

    b) unrhyw newidiadau i'r Cynllun Gweithredu a anfonasoch gyda'ch Cais y gellir eu diwygio o bryd i'w gilydd gyda'n cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw. Mae Dibenion Cymeradwy'n cynnwys cael a defnyddio cyllid partneriaeth fel y nodir yn eich Cais.

- **Defnydd Cymeradwy** - sut y dywedasoch y byddech yn defnyddio Eich Eiddo yn eich Cais (gan ganiatáu ar gyfer unrhyw newidiadau y gallem fod wedi cytuno arnynt hyd at ryddhau unrhyw ran o'r Grant).

- **Gwaith Datblygu** – llunio dogfennau, dyluniadau a chynlluniau, rhoi gwybodaeth a chymryd camau rhagarweiniol eraill wrth ddatblygu'r Cynllun rhwng y rownd gyntaf a'r ail rownd.

- **Llythyr Llwyddo yn y Rownd Gyntaf** – ein llythyr yn cadarnhau y gallwch symud ymlaen i'r ail rownd ac yn nodi unrhyw Waith Datblygu sydd ei angen sy'n eich galluogi i gyflwyno cais ail rownd am grant gennym ni i gefnogi eich Cynllun.

- **Grant** – y swm a nodir yn y Llythyr Hysbysiad Grant.

- **Dyddiad Dod i Ben y Grant** – mae'n rhaid ichi gyflawni'r Dibenion Cymeradwy erbyn y dyddiad hwn a nodir yn y Llythyr Hysbysiad Grant.

- **Llythyr Hysbysiad Grant** – ein llythyr yn cadarnhau ein dyfarniad Grant i chi.

- '**Rheoli eich Grant'** – y dogfennau a gyhoeddwn i'ch arwain ac i reoleiddio'r modd y cyflawnir y Dibenion Cymeradwy, yswiriant, cyhoeddusrwydd, sut y talwn y Grant, sut rydym yn adennill y Grant, monitro'r Cynllun a newidiadau i'r Grant.

- **Cynllun** – y cynllun partneriaeth tirwedd y cyfeirir ato yn eich Cais sy'n cynnwys y Dibenion Cymeradwy.

- **Trydydd Parti** – unrhyw un (heblaw chi) sy'n rheoli neu'n berchen ar eiddo a restrir yn y Cais.

- **Contract Trydydd Parti** – contract yr ewch iddo gyda Thrydydd Parti yn unol â pharagraff 26c) o'r Contract hwn.

- **Eiddo Trydydd Parti** – unrhyw eiddo a restrir yn y Cais sy'n eiddo i Drydydd Parti neu a reolir gan Drydydd Parti.

- **Eich Eiddo** – unrhyw eiddo rydych chi'n ei brynu, ei gael, ei greu, ei adfer neu ei ddiogelu gyda'r Grant.

1 Mae'n rhaid ichi ddefnyddio'r Grant at y Dibenion Cymeradwy yn unig, oni chewch ein cymeradwyaeth ni ymlaen llaw.

2 Mae'n rhaid ichi gyflawni'r Dibenion Cymeradwy erbyn Dyddiad Dod i Ben y Grant.

3 Mae'n rhaid ichi ddefnyddio Eich Eiddo, neu ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio, at y Defnydd Cymeradwy yn unig.

4 Yn ogystal â'r telerau grant hyn, mae'n rhaid ichi ddilyn yr amodau (os o gwbl) a nodir yn ein Llythyr Hysbysiad Grant a bodloni'r amodau a'r gofynion a nodir yn 'Rheoli eich Grant'.

5 Pan fyddwch yn cyflawni'r Dibenion Cymeradwy, byddwch yn defnyddio rheolaethau rheoli ariannol ac eraill addas sy'n:

a) sicrhau bod y Grant yn cael ei ddefnyddio at ei ddiben bwriadedig;

b) yn unol â safonau uchel gonestrwydd, rheoleidd-dra a rheoli ariannol da, ac i safon o ansawdd sy'n briodol i gynllun sy'n bwysig i'r dreftadaeth genedlaethol; ac

c) yn unol â'r egwyddorion cyfrifyddu ac archwilio a nodir yn 'Rheoli eich Grant'.

6 Ni chewch ddechrau gwaith i gyflawni'r Dibenion Cymeradwy heb ein cymeradwyaeth ni ymlaen llaw.

7 Mae'n rhaid ichi anfon atom ni, yn unol â'n cyfarwyddiadau, y wybodaeth y gofynnwn amdani yn 'Rheoli eich Grant'.

8 Mae'n rhaid ichi roi unrhyw wybodaeth a chofnodion ariannol neu eraill inni y gall fod eu hangen arnom o bryd i'w gilydd am y Grant, Eich Eiddo, Eiddo Trydydd Parti, y Dibenion Cymeradwy (a'u cyflawni) a'r Defnydd Cymeradwy.

9 Mae'n rhaid ichi adael i ni (neu unrhyw un a awdurdodwn) gael gweld unrhyw beth sydd ei angen arnom i:

a) arolygu Eich Eiddo, Eiddo Trydydd Parti ac unrhyw waith i Eich Eiddo neu Eiddo Trydydd Parti;

b) monitro cyflawniad a chynnydd y Dibenion Cymeradwy; a

c) monitro'r Defnydd Cymeradwy.

10 Os byddwn ni (neu unrhyw un a awdurdodwn) yn gwneud unrhyw argymhellion am y materion a nodir ym mharagraff 9, mae'n rhaid ichi ystyried yr argymhellion hynny wrth fodloni eich rhwymedigaethau i ni.

11 Mae'n rhaid ichi gymryd camau priodol i fonitro llwyddiant y Dibenion Cymeradwy, ac a yw Eich Eiddo'n cael ei ddefnyddio at y Defnydd Cymeradwy. Bob blwyddyn byddwch yn rhoi adroddiad i ni ('yr Adroddiad Blynyddol') ac ynddo mae'n rhaid ichi adolygu'r Dibenion Cymeradwy yn eu cyfanrwydd a dangos inni fod y Dibenion Cymeradwy wedi'u cyflawni'n llwyddiannus ac yn unol â'r telerau grant hyn a 'Rheoli eich Grant' yn ystod y flwyddyn honno. Mae'n rhaid i bob Adroddiad Blynyddol ymdrin â'r flwyddyn gyfan sy'n dod i ben ar ben-blwydd y dyddiad y cytunasom, yn ysgrifenedig, fod y cynllun yn dechrau. Mae'n rhaid i'r Adroddiad Blynyddol ein cyrraedd ni ymhen mis o'r dyddiad hwnnw.

12 Cyn i chi neu Drydydd Parti ddechrau unrhyw ran o'r gwaith sydd ei angen i gyflawni'r Dibenion Cymeradwy, mae'n rhaid i chi neu Drydydd Parti drefnu pob contract angenrheidiol gyda chontractwyr a chynghorwyr proffesiynol er mwyn i chi neu Drydydd Parti orffen y rhan honno o'r gwaith. Mae'n rhaid i bob contract fod ar delerau y byddai cyflogwr â phrofiad priodol yn cytuno iddynt gyda chontractwyr a chynghorwyr proffesiynol i ddarparu gwaith neu wasanaethau tebyg i brosiectau o'r un maint, gwerth, cymhlethdod a phwysigrwydd â'r Dibenion Cymeradwy. Mae'n rhaid i gontractau am waith cyfalaf gynnwys cymal sy'n eich caniatáu i atal rhan o ffioedd y contractwyr pan fydd y gwaith ymarferol yn cael ei gwblhau. Os oes arnoch chi neu Drydydd Parti eisiau i unrhyw gontractau fod ar wahanol delerau, mae'n rhaid ichi gael ein cymeradwyaeth ni ymlaen llaw.

13 Os yw'r Dibenion Cymeradwy'n cynnwys prynu nwyddau neu wasanaethau neu gael gwaith wedi'i wneud, mae'n rhaid i chi gynnal ymarfer tendro yn unol â'r gofynion a nodir yn 'Rheoli eich Grant'.

14 Os byddwch yn defnyddio unrhyw ran o'r Grant eich hun i brynu, cael, creu, adfer, diogelu neu ariannu Eich Eiddo fel arall, ni chewch werthu, gosod na chael gwared fel arall ag ef nac unrhyw fudd ynddo, nac ildio unrhyw hawliau drosto i unrhyw un arall (na chymryd unrhyw gamau i wneud hynny) heb ein cymeradwyaeth ni ymlaen llaw. Os rhown ein cymeradwyaeth i chi, gall ddibynnu ar unrhyw un o'r gofynion canlynol:

a) Eich bod yn talu i ni gyfran o'r elw net o werthu neu osod Eich Eiddo (byddwn yn cyfrifo'r gyfran yn unol â'r canllawiau a nodir yn 'Rheoli eich Grant').

b) Eich bod yn gwerthu neu osod Eich Eiddo am ei werth marchnad llawn.

c) Unrhyw amodau eraill sy'n addas yn ein barn ni.

15 Mae'n rhaid ichi gadw Eich Eiddo mewn cyflwr da. Os yw'r Dibenion Cymeradwy'n cynnwys creu, atgyweirio neu adfer Eich Eiddo, mae'n rhaid ichi ei gadw mewn cyflwr da ar ôl iddo gael ei greu, ei atgyweirio neu ei adfer. Os yw'r Dibenion Cymeradwy'n cynnwys paratoi cynllun gweithredu diogelu tirwedd, mae'n rhaid ichi gynnal, rheoli a diogelu Eich Eiddo yn unol â'r cynllun rydym wedi'i gymeradwyo.

16 Mae'n rhaid ichi yswirio Eich Eiddo i'r safon a nodir yn 'Rheoli eich Grant' (a defnyddio unrhyw elw o'r yswiriant yn unol â'r cyfarwyddyd hwnnw).

17 Mae'n rhaid ichi gadw unrhyw wrthrychau neu ddarnau gosod sy'n rhan o Eich Eiddo mewn amgylchedd priodol a ffisegol ddiogel.

18 Mae'n rhaid ichi ddweud wrthym, yn ysgrifenedig, ymhen pum diwrnod gwaith am unrhyw golled neu ddifrod sylweddol i Eich Eiddo.

19 Mae'n rhaid ichi drefnu bod y cyhoedd cyffredinol yn cael mynediad priodol at Eich Eiddo. Mae'n rhaid ichi sicrhau na fydd unrhyw un yn cael ei wrthod yn afresymol rhag cael mynediad at Eich Eiddo.

20 Cyn inni gyhoeddi'r Grant mewn unrhyw fodd, ni chewch gyhoeddi unrhyw ddatganiad cyhoeddus, datganiad i'r wasg na math arall o gyhoeddusrwydd mewn perthynas â'r Grant neu sy'n cyfeirio atom ni, heblaw mewn ffurf a gymeradwywyd gennym ymlaen llaw.

21 Ar ôl inni gyhoeddi'r Grant, mae'n rhaid ichi gydnabod y Grant yn gyhoeddus yn unol â'r gofynion a nodir yn 'Rheoli eich Grant' a'n llyfryn 'Sut i gydnabod eich Grant'. Mae'n rhaid ichi fodloni'r gofynion lleiaf fel y'u nodir ar gyfer y math o Gynllun rydych chi'n ei gynnal. Mae'n rhaid hefyd ichi ddarparu inni ffotograffau neu dryloywluniau neu ddelweddau digidol cydraniad uchel mewn fformat electronig o'r Cynllun a bodloni unrhyw gydnabyddiaethau neu ofynion cyhoeddusrwydd eraill y gallem ddweud wrthych amdanynt o bryd i'w gilydd.

22 Rydych chi'n rhoi'r hawl inni ddefnyddio'r ffotograffau, tryloywluniau neu ddelweddau digidol a anfonwch atom. Mae'n rhaid ichi gael unrhyw ganiatâd sydd ei angen arnoch chi ac arnom ni i ddefnyddio'r ffotograffau, tryloywluniau neu ddelweddau digidol cyn ichi eu hanfon atom ni neu eu defnyddio.

23 Cawn gyhoeddi diben a swm y Grant ym mha ffordd bynnag yr ystyriwn ei bod yn addas.

24 Hyd at Ddyddiad Dod i Ben y Grant, byddwn yn talu'r Grant neu unrhyw randaliad ohono i chi'n unol â'r telerau grant hyn a'r gweithdrefnau a thelerau a nodir yn 'Rheoli eich Grant' ar yr amod:

a) bod y Loteri Genedlaethol yn parhau i weithredu o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd), a bod digon o gyllid ar gael i ni o dan y Ddeddf; a

b) ein bod yn fodlon eich bod chi neu Drydydd Parti yn cyflawni (ac y byddwch yn parhau i gyflawni) neu wedi cyflawni'r Dibenion Cymeradwy yn unol â'r telerau

grant hyn a'ch bod yn gwario'r Grant yn gymesur ag unrhyw gyllid arall a gewch o ffynonellau eraill at y Dibenion Cymeradwy; ac

c) nad yw cyfanswm y Grant a gawsoch yn fwy na chyfanswm eich dyraniad blynyddol (fel y nodir yn y Cais) hyd at y dyddiad y gofynnwch am randaliad o'r Grant.

25 Rydych yn cydnabod mai'r Grant yw cyfanswm y cyllid y byddwn yn ei ddarparu ac na chaiff ei gynyddu os byddwch chi'n gorwario nac am unrhyw reswm arall.

26 Os yw'r Dibenion Cymeradwy'n cynnwys Trydydd Parti'n defnyddio rhan o'r Grant i brynu, cael, creu, adfer, diogelu neu ariannu fel arall Eiddo Trydydd Parti, ni fyddwn yn talu'r rhan honno o'r Grant i chi ond ar yr amodau a nodir yn 'Rheoli eich Grant' ac:

a) os ydych wedi anfon atom fanylion y Trydydd Parti a'r Eiddo Trydydd Parti y bydd angen inni eu gweld a'u cymeradwyo yn unol â 'Rheoli eich Grant';

b) os nad oes unrhyw waith neu addasiadau wedi'u gwneud i'r Eiddo Trydydd Parti ers i chi ei gynnwys yn y Cais, y credwch eu bod yn ei wneud yn llai gwerthfawr fel ased treftadaeth; ac

c) os yw'r Trydydd Parti wedi mynd i gontract Trydydd Parti gyda chi sy'n eich galluogi i orfodi yn erbyn y Trydydd Parti, mewn perthynas â'i Eiddo Trydydd Parti a'r rhan o'r Grant rydych wedi'i neilltuo iddo, delerau sydd yr un mor gaeth â'r telerau grant hyn.

27 Os bydd Trydydd Parti'n torri unrhyw un o delerau ei Gontract Trydydd Parti, mae'n rhaid ichi, oni chytunwn fel arall, gymryd pob cam rhesymol i orfodi'r telerau hynny ac adennill unrhyw arian sydd ganddo'n ddyledus i chi o ganlyniad. Mae'n rhaid ichi dalu cyfran i ni o unrhyw arian rydych yn ei adennill o Drydydd Parti. Mae'n rhaid ichi gyfrifo'r gyfran yn unol â 'Rheoli eich Grant'. Mae'n rhaid ichi dalu'r arian hwn i ni ar unwaith.

28 Os byddwn yn dweud wrthych yn ysgrifenedig, mae'n rhaid ichi ein caniatáu i gymryd drosodd a pharhau er ein budd ein hunain ag unrhyw achos yn erbyn Trydydd Parti. Mae'n rhaid ichi sicrhau hefyd fod pob Contract Trydydd Parti'n caniatáu i hyn ddigwydd. Os dywedwn wrthych, mae'n rhaid ichi drosglwyddo unrhyw hawliau i ni sydd gennych efallai o ganlyniad i dorri Contract Trydydd Parti.

29 Ni chewch ddefnyddio unrhyw ran o'r Grant tuag at waith ar Eich Eiddo neu Eiddo Trydydd Parti heb gael ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw os nodwyd yn eich Llythyr Hysbysiad Grant fod y rhan honno o'r Grant yn un y mae'n rhaid ichi ei chyfeirio atom ni cyn ichi ei chynnig.

30 Oni chytunwn fel arall, mae'n rhaid ichi sicrhau (mewn ffordd y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol) fod unrhyw un sy'n prynu neu'n cael Eiddo Trydydd Parti gan Drydydd Parti:

a) yn yswirio'r Eiddo Trydydd Parti hyd at swm ac yn erbyn y fath risgiau ag sy'n rhesymol a phriodol yn yr holl amgylchiadau perthnasol;

b) yn cadw cymeriad a golwg yr Eiddo Trydydd Parti, gan gofio i ba ardal mae'n perthyn;

c) yn cadw at unrhyw amodau eraill y dywedwn ei bod yn rhaid eu dilyn cyn gwerthu'r Eiddo Trydydd Parti; a

ch) yn eich ad-dalu chi'n unol ag amodau 'Rheoli eich grant' ar gyfer ad-dalu'r Grant.

31 Mae'n rhaid ichi gymryd pob cam rhesymol i fonitro ac, oni chytunwn fel arall:

- i orfodi yn erbyn unrhyw un sy'n prynu neu'n cael Eiddo Trydydd Parti gan Drydydd Parti yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff 30 a), b) ac c) uchod;
- i adennill unrhyw swm sy'n ddyledus i chi mewn cysylltiad â pharagraff 30 d); ac
- i dalu cyfran o unrhyw swm rydych chi'n ei adennill i ni. Mae'n rhaid ichi gyfrifo'r gyfran hon yn yr un ffordd ag o dan baragraff 27 o'r telerau grant hyn.

32 Mae'n rhaid ichi ad-dalu i ni ar unwaith unrhyw Grant rydym wedi'i dalu i chi (a byddwn yn atal unrhyw randaliadau o'r Grant yn y dyfodol):

a) os nad ydych yn gweithredu rhagor, os cewch eich datgan yn fethdalwr neu os ewch i law'r derbynnydd neu ymddatod;

b) os ydych chi, yn ein barn ni, wedi rhoi gwybodaeth dwyllodrus, anghywir neu gamarweiniol i ni;

c) os ydych wedi bod yn esgeulus mewn unrhyw fater sylweddol neu'n dwyllodrus mewn cysylltiad â'r Dibenion Cymeradwy neu'r Defnydd Cymeradwy;

ch) os bydd unrhyw awdurdod cymwys yn cyfarwyddo ad-dalu'r Grant;

d) os yw eich statws yn newid yn sylweddol;

dd) os ydych yn cadw gwybodaeth yn ôl yn bwrpasol sy'n berthnasol i gynnwys eich Cais; neu

e) os ydych yn methu cadw at unrhyw un o'r telerau grant hyn.

33 Efallai penderfynwn beidio â gofyn ichi ad-dalu'r Grant (neu'r cyfryw ran ohono fel yr ystyriwn yn addas) am y rhesymau a nodir yn 'Rheoli eich Grant' ond ni a fydd yn penderfynu a yw un o'r rhesymau hynny'n berthnasol ai peidio.

34 Os cyflawnwch y Dibenion Cymeradwy heb wario'r Grant i gyd, mae'n rhaid ichi ad-dalu'r rhan o'r Grant nad ydych wedi'i gwario. Byddwn yn eich trin fel petaech yn gwario'r Grant yn gymesur â chyllid arall roeddech am ei gael gan ffynonellau eraill at y Dibenion Cymeradwy.

35 Os byddwch yn gwerthu neu'n cael gwared fel arall â'r cyfan neu ran o Eich Eiddo heb ein caniatâd o dan baragraff 14, neu os cewch arian rywfodd arall o ganlyniad i beidio â dilyn y telerau grant hyn, efallai y bydd yn rhaid ichi dalu i ni ar unwaith gyfran o'r elw net

(byddwn yn cyfrifo'r gyfran yn unol â'r canllawiau yn 'Rheoli eich Grant') os yw'r gyfran honno'n fwy na'r swm y gallem ei hawlio fel arall o dan baragraff 26.

36 Gallem roi'r gorau i ariannu yn unol â'r telerau grant hyn os nad ydych chi, ymhen dwy flynedd o ddyddiad ein Llythyr Hysbysiad Grant, wedi gwario o leiaf 20% o'r Grant.

37 Os byddwn yn rhoi'r gorau i ariannu yn unol â pharagraff 36, cewch hawlio symiau o hyd rydych wedi'u cynnig i Drydydd Partïon ond heb eto eu talu ar y dyddiad y byddwn yn rhoi'r gorau i ariannu. Cewch hefyd hawlio unrhyw symiau y cytunwn y dylent fod ar gael ichi o hyd i wneud gwaith i Eich Eiddo.

38 Os byddwn yn rhoi'r gorau i ariannu o dan baragraff 36, mae'n rhaid i chi (os gofynnwn ichi wneud) drosglwyddo unrhyw Gontractau Trydydd Parti i ni neu rywun a ddewiswn.

39 Ni chewch drosglwyddo'r Grant nac unrhyw hawliau o dan y telerau grant hyn, na gwneud cais i'w trosglwyddo.

40 Mae'n rhaid ichi gymryd pob cam a llofnodi a dyddio unrhyw ddogfennau, fel sy'n angenrheidiol efallai i gyflawni eich rhwymedigaethau o dan y telerau grant hyn ac i roi'r hawliau i ni a roddir i ni drwyddynt.

41 Os oes mwy nag un ohonoch chi, bydd unrhyw atebolrwydd o dan y telerau grant hyn yn berthnasol i chi i gyd gyda'ch gilydd ac ar wahân.

42 Cawn ddibynnu ar unrhyw un o'n hawliau o dan y telerau grant hyn ar unrhyw adeg, hyd yn oed os na ddewiswn wneud hynny ar unwaith. Os penderfynwn beidio â dibynnu ar un hawl, cawn ddibynnu o hyd ar unrhyw un o'n hawliau eraill o dan y telerau grant hyn.

43 Os oes angen ein cymeradwyaeth arnoch ar gyfer unrhyw beth, mae'n rhaid ichi ysgrifennu atom i ofyn amdani. Ni chewch ddibynnu ar unrhyw gymeradwyaeth sydd ei hangen o dan y telerau grant hyn oni fyddwn ni (neu unrhyw un a awdurdodwn) yn ei rhoi i chi'n ysgrifenedig.

44 Mae'n rhaid i unrhyw hysbysiad, cais neu ddogfen arall rydym ni neu rydych chi yn eu hanfon at ein gilydd o dan y telerau grant hyn gael eu dosbarthu neu eu hanfon drwy'r post yn y Llythyr Hysbysiad Grant, neu i unrhyw gyfeiriadau eraill y cawn eu nodi.

45 Mae unrhyw ddogfennau y mae angen ichi eu hanfon atom o dan y telerau grant hyn at ein dibenion ni yn unig. Os byddwn yn cymeradwyo neu'n derbyn unrhyw ddogfennau, nid yw hyn yn golygu ein bod wedi'u cymeradwyo na'u derbyn at unrhyw ddiben arall.

46 Bydd y telerau grant hyn yn para'r cyfnod a nodir yn y Llythyr Hysbysiad Grant.

47 Ni all unrhyw un orfodi'r telerau grant hyn, heblaw chi neu ni.

48 Gallai'r Llythyr Llwyddo yn y Rownd Gyntaf gynnig darparu cyllid i chi ar gyfer Gwaith Datblygu. Os felly, bydd y telerau grant wedi'u rhifo a nodir uchod hefyd yn berthnasol i'r cyllid hwnnw ond gyda'r newidiadau canlynol:

a) Pan fyddant yn cyfeirio at y "Dibenion Cymeradwy" mae hyn yn golygu eich Gwaith Datblygu.

b) Pan fyddant yn cyfeirio at y “Defnydd Cymeradwy” mae hyn yn golygu eich bod yn defnyddio cynnyrch y Gwaith Datblygu i hybu’r Cynllun ymhellach.

c) Pan fyddant yn cyfeirio at “Ddyddiad Dod i Ben y Grant” dyma’r dyddiad y nodir yn y Llythyr Llwyddo yn y Rownd Gyntaf ei bod yn rhaid i chi gwblhau’r Gwaith Datblygu erbyn y dyddiad hwn.

ch) Pan fyddant yn cyfeirio at “Grant” mae hyn yn golygu swm y cyllid ar gyfer y Gwaith Datblygu a nodir yn y Llythyr Llwyddo yn y Rownd Gyntaf.

d) Pan fydd paragraffau 4, 44 a 46 yn cyfeirio at y “Llythyr Hysbysiad Grant” mae hyn yn golygu’r Llythyr Llwyddo yn y Rownd Gyntaf.

dd) Ni fydd paragraffau 9a), 9c), 15, 16 a 17 yn berthnasol.

Awarding funds from
The National Lottery®
Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol